COFNODION CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Lun, Hydref 1af, 2018 am 7.30 o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), Edward O. Griffith, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, William B. Williams

YMDDIHEURIADAU

Wyn Griffiths, O. Hefin Roberts (Is-gadeirydd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod; ymddiheurodd y Clerc am ei drefnu ar fyr rybudd (gweler isod).

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant personol i'w ddatgan.

2. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y cais a ganlyn:

C18/0501/39/LL Dymchwel tŷ presennol a chodi un gromen newydd yn ei le a modurdy ar wahân a gwaith i fynedfa – Palmyra, Aber-soch **– Cefnogir**

3. **CADARNHAU CYFRIFON 2017 – 2018**

Derbyniwyd llythyr oddi wrth BDO ddydd Mercher diwethaf (Medi 26ain) yn amgáu Rhybudd yn datgan na chyhoeddwyd barn archwilio cyn Medi 30ain (ddoe), sef y dyddiad cyhoeddi statudol. Yna, echdoe (bore Sadwrn, Medi 29ain), derbyniwyd un a nodai bod gofyn cadarnhau'r Archwiliad Ariannol cyn Medi 30ain, ynghyd â'r Ffurflen Flynyddol, Hysbysiad Diwedd yr Archwiliad a'r Adroddiad a rhaid oedd gwneud hynny cyn gynted â phosibl. Trafodwyd y mater â Chadeirydd y Cyngor a holi Katherine Owen, Clerc Cyngor Tref Caernarfon, a awgrymodd drefnu cyfarfod cyn gynted â phosibl a hysbysu BDO (gwnaed ddoe) pryd y'i cynhelir.

Tynnwyd sylw at y materion a ganlyn:

a) ***Datganiad Llywodraethiant Blynyddol – Arian Rhodd***
ni chwblhawyd cwestiwn yn Rhan 2 yn gywir sy'n ymwneud â rhwymedigaeth talu arian rhodd. Dilewyd y datganiad 'anghywir' i adael yr un sy'n darllen 'Nid oes gan y Cyngor unrhyw rwymedigaeth na bwriad i dalu arian rhodd i gyflogedigion' ac, o ganlyniad, ni chwblhawyd y ffurflen flynyddol yn llawn yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd

b) ***Mân Faterion***
cynhwyswyd, yn anghywir, gostau gweinyddol a ad-dalwyd i'r Clerc ym Mlwch 4 – Costau Staff fel esgeulustod neu faterion bach. Felly, datganwyd Taliadau Eraill yn rhy isel a goradroddwyd Costau Cyflog. Argymhellir na chynhwysir y mân gamsyniadau neu esgeulustod hyn yn natganiadau cyfrifo y dyfodol

c) ***Pwerau Gwariant – Defnyddio Pŵer A137 yn Amhriodol***
cofnododd y Cyngor eitemau fel taliadau Adran 137 yn anghywir lle bodolai grymoedd statudol eraill. Ni ellir cofnodi taliad dan Adran 137 os bodola grym statudol arall. Argymhellir y dylid sicrhau yr adolygir y rhestr grymoedd statudol sydd ar gael er mwyn sefydlu a fodola grym cyn dibynnu ar Adran 137 i awdurdodi taliad, ynghyd â chofnodi wrth ochr yr eitem i ddangos y dilynwyd y Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol yn briodol

ch) ***Asedau***
yn dilyn adolygiad o asedau yn ystod y flwyddyn, adnabuwyd rhai a adawyd allan yn flaenorol. Diweddarwyd y gofrestr asedau sefydlog ar gyfer y flwyddyn gyfredol i adlewyrchu'r asedau hyn. Argymhellir yr adolygir y gofrestr asedau'n flynyddol ac y dylid cynnwys unrhyw rai sydd ar goll ar bris cost.

Er y derbyniwyd a chadarnhawyd Adroddiad yr Archwiliad ac arwyddodd y Cadeirydd a'r Clerc y ffurflen, penderfynwyd ysgrifennu at BDO i fynegi anfodlonrwydd â'r ymholiadau oherwydd anfonwyd taenlenni'r cyfrifon â hi. Anghytunir â sylw b) uchod; ni wnaed hynny – cyfanswm cyflog a thaliadau TWE a nodir ynddo oherwydd cynhwyswyd costau gweinyddol y Clerc ym Mlwch 6 Cyfanswm Taliadau Eraill, yn unol â'r nodiadau a chanllawiau llenwi'r ffurflen. O ganlyniad, penderfynwyd gofyn i BDO ddileu'r sylw hwn o'r Adroddiad.

Mynegwyd anfodlonrwydd o orfod ymateb i'r cais am fwy o wybodaeth; deallwyd mai cyfrifwyr dan hyfforddiant a ddeliai â'r gwaith. Er yr atebwyd un neu ddau o'r ymholiadau e-bost, bu'r Clerc ar y ffôn am awr yn trafod y gweddill – bu'n rhaid gwneud yn y Saesneg oherwydd y buasai'n cymryd tridiau trefnu cael rhywun a allai siarad Cymraeg – er mwyn cwblhau'r archwiliad cyn diwedd mis Medi.

4. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Hydref 10fed, 2018 am saith o'r gloch